# Llais yr Andes

Cylchlythyr Dosbarthiadau Cymraeg
Rhif 5 Esquel a Threvelin Rhagfyr 1999.

# Canu clodydd Elda ac Ariel

**Y mae dau sydd yn dod i'r dosbarthiadau Cymraeg wedi derbyn gwobrau arbennig am eu cyfraniad i fywyd diwylliannol Esquel yn ystod y nawdegau.**
**Derbyniodd Elda Griffiths de Gomez ac Ariel Hughes wobr *Hacedores de Cultura* gan y dref.**
**Mewn seremoni arbennig cyflwynwyd tlws i'r ddau ohonyn nhw ac i ddeunaw o bobl eraill a anrhydeddwyd.**
**Cafodd Elda ei gwobr hi oherwydd ei gwaith ardderchog ym myd cerddoriaeth. Hi sydd yn arwain Côr Seion ac wedi bod yn arwain y Côr Dinesig, Côr Plant a Chôr y rhai wedi ymddeol.**
**Cafodd Ariel ei anrhydeddu oherwydd ei waith yn hyrwyddo diwylliant yn y fro mewn sawl ffordd ac am ei waith gydag INTA.**

## Llythyr oddi wrth Tom Marks, Prifathro Coleg Llanymddyfri at rieni Alun Jones

Annwyl Mr a Mrs Jones,
Dim ond gair byr i ddweud cymaint o bleser fu cael cwmni Alun yn y Coleg ac rwy'n gobeithio iddo yntau fwynhau'r profiad o ymgartrefu yn ein plith ni.
Rhaid dweud fod Alun wedi gweithio'n galed ar ei Gymraeg. Cwblhaodd gwrs Uwch Atodol gan sefyll yr arholiad terfynol. Creodd gylchgrawn am y Wladfa fel rhan o'i gwrs a bu'n astudio'r cyfryngau. Roedd yr arholwraig yn hapus iawn ar ei berfformiad yn yr arholiad llafar ac rwy'n hyderus iddo ennill gradd dda iawn.
Cwblhaodd gwrs Sbaeneg trwy gyfrwng y Gymraeg ac eto disgwylir iddo ennill gradd uchel.
Pwnc arall y safodd arholiad ynddo oedd Saesneg i Dramorwyr a gwnaeth gynnydd da dros ben.
Yr oedd Alun yn boblogauidd a'i gyd-ddisgyblion ac oherwydd ei ddiddordeb arbennig mewn dringo gwnaeth ffrindiau gyda sawl un a bu'n dringo yn Eryri, Cadair Idris, Sir Benfro a Bannau Brycheiniog.
Drwy garedigrwydd ffrindiau cafodd weld llawer o gestyll a bu'n ymweld a lleoedd o ddiddordeb ym mhob rhan o'r wlad.
Rwy'n siwr y bydd yr holl brofiadau yn werthfawr iawn iddo ac rwy'n gobeithio ei fod wedi cael ei blesio gan yr hyn a welodd. Yn sicr, bydd gennym atgofion melys iawn o'i arhosiad ac mae ein dyled yn fawr iddo am gyflawni pob dyletswydd mewn modd cydwybodol ac urddasol. Pa un ai'n siarad ar y teledu neu'r radio neu'n cyfarfod pobl roedd bob amser yn gwrtais a serchog.
Gobeithio y bydd yn mwynhau'r Cwrs Wlpan Uwch yn Llanbedr Pont Steffan a hefyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn. Rwy'n gobeithio hefyd y bydd yn cadw mewn cysylltiad a Choleg Llanymddyfri ac y daw yn ôl i'n gweld. Efallai y bydd yn gyrru rhai o'i ddisgyblion atom cyn bo hir, pwy a wyr.
Gyda llawer o ddiolch,
Cofion caredig
Tom Marks.

**Cofiwch am rifyn nesaf Llais yr Andes**
**Anfonwch bethau i'w cyhoeddi i Gladys Jones (Ffôn: 450865) neu Sandra De Pol (Ffôn: 15687169) cyn gynted a phosib - heddiw hyd yn oed!**

# Dyma Ni

## *Valeria Knobel yn cyflwyno ei hun*

Enw fy nhre i ydy Esquel. Mae fy nheulu yn byw yma ond mae un brawd yn byw yn Epuyén.
Mae fy mam yn cadw gwesty yn y ffarm ac mae fy nhad i'n gweithio yn y siop goed.
Mae fy mhlant yn byw efo fi. Enw fy merch i ydy Liza ac enw fy machgen ydy Juan.
Mae gen i un ci, un gath ac un crwban.
Enw fy nghi ydy Sonia ac mae gen i ffrind o'r enw Sonia hefyd.
*Valeria Knobel*

## *A dyma Ximena*

Ximena dwi.
Dwi'n byw yn Esquel, Patagonia, a dwi'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol efo Sioned.
Dwi'n siarad Cymraeg efo Dad, Ariel. Dydy Mam ddim yn siarad Cymraeg ond mae hi'n licio clywed Cymraeg yn fawr.
Mae gen i dri brawd, Ariel Juan a Benjamin, ac un chwaer, Patricia. Mae gynni hi dri o blant, Jonathan, Ariel a Ximena.
Dwi'n licio cerdded, coginio a dawnsio ond dwi ddim yn licio golchi llestri!
Dwi'n licio yfed mate efo fy ffrindiau.
Dwi'n licio pan mae hi'n bwrw glaw ond mae'n well gen i dywydd braf.
Tan tro nesa. . .
*Ximena Roberts.*

## *A dyma Delfina*

Dw i'n byw yn Esquel, yn stryd Sáenz Peña 768.
Mae gen i deulu: Victor, fy ngwr, tri o blant, un mab a dwy ferch.
Enw mam Víctor ydy Minerva Rowlands de Ellis.
Rwan dw i'n byw yn Bryn Amlwg. Dw i'n dysgu Cymraeg.
Dw i'n licio siarad, darllen a sgrifennu tipyn bach. Dw i'n licio siopa, dw i'n licio cerdded ond sgeni ddim llawer o amser.
Dw i'n cofio yn fawr am Hazel ond dw i'n mwynhau gwneud scetsus, canu, dawnsio a dysgu efo Sioned. Benigedig!
Mae gan Victor ewythr yng Nghymru a dw i isio mynd i nabod nhw yn y flwyddyn 2000.
*Delfina.*

***Diolch yn fawr i Delfina. Mae'r dosbarth dechreuwyr yn mynd i dy Delfina bob nos Lun ers i'r trefniant efo'r***

# Clwb yn hel ei draed

Do, mi wnaeth y Clwb Cerdded gerrdded dair gwaith ar dri diwrnod bendigedig.
Y daith gyntaf oedd i Dy Wilson a Llyn Brychan.
Cwmni o naw yn mwynhau natur ac yn siarad Cymraeg - ond nid trwy'r amser.
Mae'n bwysig i'r athrawon 'ma o Gymru ddysgu tipyn o Sbaeneg hefyd!! Felly wnaethon ni gael llawer o hwyl yn cymysgu popeth!!
Ac wrth gwrs roedd y bwyd a'r *mate* yn ardderchog yn Nhy Idwal (dwy awr!) ac *alfajores* Leo yn dderbyniol iawn wrth Lyn Brychan (awr a hanner!).
Felly, dydy'r clwb cerdded ddim yn cerdded drwy'r amser dach chi'n gweld. Roedd o'n ddiwrnod hyfryd a phawb yn teimlo'n hapus a blinedig ar ei ddiwedd.
Roedd yr ail daith i Lyn y Tarw yn un gyffrous iawn. . .
Cychwyn am hanner awr wedi saith - i fod - ond doedd Sioned ddim wedi codi tan iddi hi glywed swn traed yn dod i fyny grisiau'r fflat!
Wnaeth y cloc larwm ddim gweithio, medda hi.
Do, bu llawer o dynnu coes!
Roedd hi'n daith braf os yn ddryslyd weithiau!!!
Y golygfeydd yn anhygoel ond biti nad oedd neb wedi dod a chamera.!
Y drydedd daith, i Nant y Fall, oedd yr un ddiocaf o bell ffordd. Roedd hi'n ddiwrnod poeth a hynny'n ddigon o esgus i gysgodi dan frigau'r coed a rhyfeddu at y rhaeadrau . . . ond biti bod y *mosquitos* wedi penderfynu gwneud yr un peth!
Diolch i Leo ac i Erica am arwain y teithiau; i Miguel am ein cludo efo llawer o hwyl ac i Liz a aeth a ni i Nant y Fall.

**Geiriau o gydymdeimlad** i Morfudd sydd newydd golli Eric

**Diolch yn fawr** i Glyn Evans am ... helpu ni i gyhoeddi *Llais yr*

BBC Radio Cymru
92-105 FM

# *Helo Cymru!*

***meddai Sandra De Pol***

Yr arwyddlun uchod oedd yn hongian yng Nghlwb Racing Trelew yn ystod Eisteddfod Y Wladfa rhwng 29 ain a 30 ain o Hydref. Roedd yn dangos bod Radio Cymru wedi dod. Roedd yr orsaf hon wedi bwriadu gwneud rhaglen fyw nos Sadwrn 30 ain. Cyrhaeddodd Rhisiart Arwel, y cynhyrchydd, a Hywel Gwynfryn , Y Cyflwynydd, enwog, wythnos cyn yr Eisteddfod i ddarparu popeth.

Roedd e´n brofiad bythgofiadwy i mi gymryd rhan ynddi a rhannu´r cyfrifoldeb gyda Gabriel Restucha, Gaiman. Oedd e´n cynrychioli´r Dyffryn a minnau yr Andes.

Roedd Hywel Gwynfryn yn siarad â llawer o bobl mewn ystafell fach, wedi ei haddasu yn stiwdio gan Héctor Ariel Mac Donald. Roedd pobl o´r dyffryn a phobl o´r Andes yn sôn am eu gwaith a´u hargraffiadau nhw o gynllun yr iaith Gymraeg yma, ym Mhatagonia. Roedd Sylvia Baldor Green a Rini Griffiths yn eu plith nhw.

Roedd Grwp Glesni wedi bod yn llwydiannus yn Eisteddfod y Bobl Ifanc ym mis Medi, felly yn ystod y rhaglen roedd y gwrandawyr yng Nghymru yn cael cyfle i wybod pa mor galed weithiodd Sylvia gyda nhw a chymaint o bleser ydy gwrando arnyn nhw.

Roedd y rhaglen yn cael i ddarlledu o 5 o´r gloch tan 8 o´r gloch amser yr Ariannin, sef naw o´r gloch tan hanner nos yng Nghymru. Ar y pryd roedd Radio L U 20 o Drelew yn trosglwyddo darnau pwysic iawn yn y Sbaeneg fel y Seremoni Coroni a Seremoni Cadeirio´r Beirdd, caneuon o Eisteddfod y Bobl Ifanc. Felly, mi wnaeth gwrandawyr Trelew a Chymru fwynhau gyda´i gilydd y profiad anhygoel. Yr iaith Gymraeg oedd yn cysylltu pobl sy´n byw

# Yr anifail anwes sy'n aros yn fy nghof

***Shirley Freeman yn cofio tristwch colli cyfaill ffyddlon***

Yn ystod y chwedegau roeddwn i yn byw ym mhentref El Bolsón. Roedd fy ngwr wedi cael ci o'r enw Lwm oddi wrth ei ffrind - ci wedi cael ei fagu ar fferm. Roedd o'n weithiwr arbennig, yn cario coed tân at y drws cefn a chwilio am wyau yn y cwt ieir heb dorri dim un erioed.

Welson ni erioed anifail mor ofalus a charedig yn defnyddio ei geg a'i dafod er mwyn ein helpu ni.

Mi fuodd Lwm o Chucwm (hwn oedd ei gyfenw) am flynyddoedd yn gofalu drosom ni.

Ond rhyw ddiwrnod gwelsom Lwm yn gorwedd yn dawel wrth y drws cefn, ei lygaid trist hanner ar gau a'i ddagrau yn taflu allan.

Roeddem ni fel teulu yn teimlo fod o fel un ohonom ni.

Trion ni godi ei galon ond, druan, roedd ei nerth wedi ei adael o.

Erbyn hyn, cawsom wybod mai gwenwyn oedd y gosb aeth a'n hen gi tyner oddi arnom.

# Pan o'n i'n blentyn

Pan on i'n blentyn on i'n treulio gwyliau'r haf efo Modryb Jane.

Roedd hi'n byw ar ffarm yn agos i Drevelin ar ôl croesi'r afon.

Pob bore on i'n helpu fy modryb i ffeindio nythod ei ieir. Oedden nhw'n clochdar tu ôl i'r poplys.

Un diwrnod es i at y coed a ffeindiais y nyth yn llawn o wyau gwyn!1.

Mi godais i nhw fesul un a'u rhoi yn fy ffedog lân a dechreuais redeg at y ty dan weiddi, "Modryb Jane. . . dyma'r wyau!"

Pan on i bron â chyrraedd drws y ty, i'r llawr a fi! Clywais swn craciau bach, isel. Edrychais yn fy ffedog. On i ddim yn credu beth on i'n ei weld. Roedd y wyau i gyd wedi smasio. Roedden nhw'n barod i 'neud ffrois neu omelet.

Codais fy llygaid at wyneb Modryb Jane gan ddisgwyl rhyw fath o gerydd ond be welais i?

Dim ond gwên ar ei hwyneb a thynerwch yn ei llygaid glas. Fel pob amser.

*gan*
***Joyce Powell***

# Un o hanesion fy nhad

**Roedd fy Nhad wedi cael ei eni yn Bryn Crwn ar ffarm o'r enw Clydfan rhwng Gaiman a Dolavon.**

**Amser glaw roedd y ffordd yn sobor o anodd i deithio arni o achos y mwd.**

**Roedd rhaid i bawb fynd ar gefn ceffyl neu efo siolky.**

**Rwy'n cofio hanes fy nhad a'i chwaer, Mary Jane a beth ddigwyddodd y gaeaf hwnnw, flynyddoedd yn ôl.**

**Mi farwodd cymdoges i nhad ac felly mi fuodd trafferth mawr i gyrraedd y fynwent ac wrth gwrs i gario'r arch.**

**Ond mi oedd yna ddwy ddynas yn cerdded y tu ôl i'r angladd ac meddai un wrth y llall:**

**"Onibai am yr hen injegsions na sa ni wedi gallu ei chladdu hi yn neis ac yn daclus bythefnos yn ôl, cyn y glaw!".**

# Croeso amlwg yn yr haul

**Cafwyd diwrnod o haul yn yr awyr iach ddydd Sadwrn Tachwedd 20.**

**Yr oedd digyblion yr Ysgol Gymraeg wedi cyfarfod ym Mryn Amlwg i groesawu myfyrwyr a oedd newydd ddychwelyd o Gymru; Norma Contreras, Ariel Hughes, Vanessa Arbe, Soraya Williams.**

**Cafodd Norma a Sorya fis yn ychwanegol i ddilyn cwrs tiwtoriaid.**

**Yr oedd Delfina Elis wedi paratoi byrddau allan ym Mryn Amlwg ac wedi gwneud pizzetas ffres yn y stôf goed. Hefyd yr oedd pawb wedi dod a bwyd efo nhw ac ar ôl gorffen bwyta yr oedd Sioned wedi trefnu chwaraeon ac yn gweiddi ar bawb i beidio a chysgu siesta.**

**Wedi'r bwyd cafwyd cacenau o bob math yn cynnwys rhai hufen, jam llaeth, siocled a phawb yn awyddus i drio pob un!**

**Canwyd caneuon o'r Cancionero hefyd ac aeth pawb adref yn hapus iawn wedi cael diwrnod i'w gofio.**

**Ymhlith y rhai oedd yn bresennol yr oedd: Amanda a Martin, Marina, Gladys a'r gwr, Aira, Lizzie, Elvina, Ariel, Marta ac Alan, Rini, Valeria, Lisa a Juan, Isabel, Juli, Ingrid,Aheili, Glenys a Pedro, Ximena Roberts, Delfina a'i babi, Marisa, Susi, Soraya a'i brawd, Nelda.**

**Trefnwyd noson groesawu lwyddiannus iawn yn Nhrefelin hefyd ynghynt.**

## *Gwnewch eich bol yn barod*

**Rhywbeth sydd ar y gweill i godi arian at y ganolfan yn Esquel ydy llyfr rysetiau a fydd yn cynnwys pob math o fwydydd o Esquel, Trevelin a Chymru.**
**Ar werth yn fuan.**

## Cyrraedd Esquel

A. Helo, sut mae?
B. Iawn diolch. A chi?
A. Da iawn. Dwi newydd gyrraedd Esquel.
B. Oh! Croeso i'r dre.
A. Dwi'n dod i nabod La Hoya.
B. Da iawn! Mae La Hoya yn ardderchog!
A. Rhaid imi gael lle i aros. Oes gwesty yma?
B. Oes, mae gwesty yma. Mae'r gwesty ar y sgwar nesa.
A. Oh, diolch yn fawr, rhaid i mi fynd yna.
B. Am faint o ddyddiau dach chi'n sefyll yma?
A. Dwi'n sefyll yma tan ddydd Sul nesa.
B. Dwi'n siwr bod chi'n mynd i gael hwyl.
A. Ydw, dwi'n siwr. Ond oes Banc yn y dref?
B. Oes, mae banc yn Stryd Alvear.
A. Oes Sinema yma?
B. Oes, mae sinema yma ond dydy hi ddim yn agor bob dydd, mae'n ddrwg gen i.
A. Wel, da bo, dwi'n mynd i'r gwesty. Ta ta.

# Llyfr i godi cân

**Diolch yn fawer i Roy a Neli Roberts am noddi'r argraffiad cyntaf o *Gancionero Seion* ac i Silvia, Ty Te Melys, am noddi'r ail argraffiad.**

**Mae elw'r *Cancionero* yn mynd tuag at yr Ysgol Gymraeg ac yn benodol i brynu adnoddau fel fideo, teledu ac ati ar gyfer yr athrawon a'r myfyrwyr.**

**Diolch hefyd i Amanda Avila am gael defnyddio ei chyfrifiadur ac am ei chymorth efo'r caneuon Sbaeneg ac i bawb arall a gyfrannodd ac a werthodd yn Steddfod Trelew.**

**Mae'r *Cancionero* yn cyflwyno caneuon gwerin Cymraeg a Sbaeneg ac yn rhywbeth y dylai pob aelod o'r gymdeithas Gymraeg ei gael.**

**Dim ond $3 yr un ydy o.**

**Prynwch un i gynorthwyo'r ysgol ac i ehangu eich gwybodaeth am rai o ganeuon gwerin poblogaidd Cymru**

**Y mae cylchgrawn newydd o'r enw *Lingo* yn cael ei argraffu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Dyma ichi groesair ichi allan ohono er mwyn ichi gael blas arno fo**


## Croesair

### Ar Draws

1. Dych chi'n cadw dillad yn hwn (6)
6. Mae Bryn Terfel yn canu hwn (5)
7. Bachgen a .... (4)
10. Y mis cynta (6)
11. Anifail bach (2)
13. Gwanwyn, ...., hydref, gaeaf (3)
14. Coch neu wyn neu wyrdd (3)
15. Mae cogydd yn defnyddio hwn (6)
16. Tad a .... (3)

### I Lawr

1. Gwlad (5)
2. Dych chi'n cael hwn i ddathlu (5)
3. Cyn heddiw (3)
4. Crwn i bêl-droed. Hirgrwn i rygbi (3)
5. Gair y gogledd am Mam-gu (4)
8. Cath neu ddafad neu eliffant (7)
9. Tân ___ - ar Dachwedd 5 (5)
11. Dych chi'n yfed o hwn (5)
12. Gair arall am heol (4)



Cofiwch! Un llythyren ydy Dd, Ch, Ll ac Ff

**geiriau**

cogydd - *chef*
llythyren - *letter*

# Mwy o Leisiau'r Andes!

*Erthyglau a Straeon gan y rhai hynny a fu'n dilyn y cwrs sgrifennu gyda Glyn Evans - ac y mae rhagor i'w cyhoeddi yn ein rhifyn nesaf*

# Dydd cynta'r mileniwm

## *- diwrnod fel unrhyw ddiwrnod arall*

**meddai Esther Evans de Hughes**

Ymhen dim mi fydd hi'n flwyddyn 2000. Mae pob math o baratoadau ar gyfer y dydd pwysig yma gyda rhai pobl yn bwriadu teithio i wledydd pell, eraill yn trefnu i ddringo mynydd ac yfed siampên a bwyta danteithion yno pan fydd y wawr yn torri.

Eraill yn gobeithio cael gwrando ar gerddoriaeth wedi ei chyfansoddi yn bwrpasol ar gyfer y dathliad.

Mae llawer yn credu'n bendant y bydd y byd yn gorffen efo'r dyddiad 2000 ac mae rhai awdurdodau yn ofni y bydd y grwpiau mwyaf eithafol yn cyflawni hunanladdiad efo'i gilydd.

Mae'n rhaid fy mod i yn ddidaro neu rywbeth gan nad ydw i yn meddwl gwneud dim gwahanol i'r arfer ar ddydd cyntaf Ionawr nesaf.

Y diwrnod blaenorol, Rhagfyr 31, mae'n siwr y bydd teisen ben-blwydd fel arfer i Ifor ac y bydd y plant a'r wyrion o gwmpas.

Bydd aelodau o'r teulu a ffrindiau sy'n bell yn galw ar y ffôn ac yna bydd y rhai ifanc yn mynd i'r ffarm i gysgu mewn pabell fel arfer yn griw hapus a ninnau ein dau i'r gwely a cheisio cysgu er gwaetha`r rhialtwch a'r swn ar y stryd.

A dwi'n siwr y bydd y Mileniwm newydd yn cyrraedd fel y cyrhaeddodd pob blwyddyn newydd arall o'i flaen dros y canrifoedd.

Bydd pobl yn cyfarch ei gilydd gyda *Blwyddyn Newydd Dda - Feliz año nuevo* a bydd cannoedd o deuluoedd yn teithio i'r wlad i fwyta cig wedi ei rostio a salad ffrwythau ar lan afon neu lyn neu dan gysgod coed a mwynhau dod yn ôl yn flinedig a bodlon efo'r nos.

A'r bore Llun canlynol bydd miloedd mewn swyddfeydd a ffatrioedd yn ofañus wrth roi'r dyddiad ar gofnod neu lythyr neu fil - Ionawr 2000.

Achos bydd yn hawdd methu ar ôl inni fyw cyhyd efo'r hen 1900.

# Dathlu'r *25 de Noviembre* yng Nghwm Hyfryd *gan Mary Green*

**Gorymdeithiodd yr Ysgol Gymraeg ar hyd prif stryd Trevelin ar dachwedd 25 gyda'r athrawon, Sioned Huws a Glyn Evans yn cario'r baneri.**

Daeth tyrfa fawr, fel pob blwyddyn, i wylio gorymdaith y gwahanol sefydliadau a oedd yn dathlu 114 mlynedd darganfod Cwm Hyfryd.

Y Cyrnol Fontana a'i Rifleros a deithiodd ar gefn eu ceffylau dros y paith o'r Dyffryn yn 1885 ac yn eu plith yr oedd y Baqueano John Daniel Evans, John Murray Thomas a William Jones Glyn.

Cyrhaeddasant ardal Tecka ac oddi yno i ben y mynydd a elwir yn Pico Thomas er cof am Murray Thomas.

Oddi yno y cafwyd y cip cyntaf o'r hyn a elwir yn Gwm Hyfryd gan mai dyna'r frawddeg a ddaeth i'w genau wrth weld yr olygfa o'u blaenau.

Ymhlith y gorymdeithwyr yr oedd criw o ddynion lleol ar eu ceffylau yn gwisgo dillad a geriach yr adeg honno gan olygu fod dillad wedi eu treulio, barf wedi tyfu a holl angenrheidiau taith hir ar gefn y ceffylau sbâr neu cargueros.

Roedd y rhain wedi esgyn i ben y Graig Goch ddiwrnod ynghynt i osod baner ar y brig a phob un yn cynrychioli un o'r Rifleros gwreiddiol a ddarganfyddodd Gwm Hyfryd yn 1885.

Yn ogystal a'r orymdaith hon bu dathliadau eraill fel te Cymreig yn y Salon Central yn y pnawn a chyngerdd yn y nos gydag amryw o gorau yn cymryd rhan gan gynnwys Côr Seion sy'n canu caneuon Cymreig dan arweiniad Elda Griffiths de Gomez.

## Angen dwy Gymdeithas Gymraeg

Byddai yn well cael dwy gymdeithas Gymraeg yng Nghwm Hyfryd - un ar gyfer Trevelin ac un arall ar gyfer Esquel.

Dyna farn Roy Roberts, cadeirydd y Gymdeithas Gymraeg bresennol a fu yn ateb cwestiynau gan rai a fu yn dod i ddosbarthiadau sgrifennu Glyn Evans yn y ddwy dref.

Dywedodd Mr Roberts y byddai cael un gymdeithas yn Nhrevelin ac un yn Esquel yn creu mwy o frwydfrydedd a mwy o awydd i weithio lleol.

Cwynodd mai ychydig o frwdfrydedd sydd yna ar hyn o bryd

Y mae y syniad o gael dwy gymdeithas yn destun trafod yn barod ac os oes gennych chi farn ar y mater beth am ei mynegi yn Llais yr Andes.

## Profiadau dysgwyr

# Mewn Gwlad Goch!

***Soraya J. Williams ar gwrs iaith yng Nghymru***

**Gwlad goch. Do, wnes i gyrraedd Gwlad Goch. Cymru.**
**Do'n i ddim yn gwybod sut oedd gwlad yn ystod Cwpan Rygbi y Byd.**
**Nawr dw i yn gwybod!**

Pan wnaeth Cymru chwarae yn erbyn Japan roedd pawb yn gwisgo crysau swyddogol y tîm a hetiau doniol a baneri fel ffrogiau neu giltiau Sgotaidd.

Wnes i gychwyn ar fy nghwrs mewn awyrgylch o rygbi a chwaraeon a chawsom amser braf .

Roedden ni yn dysgu gramadeg a methodeg ond dydy mis ddim yn ddigon i ddysgu llawer.

Yn ystod yr amser y bues i yng Nghaerdydd wnes i siarad a lot o bobol o wahanol rannau o'r byd.

Roedd e'n ddiddorol siarad a phobl ifainc o Awstralia, Seland newydd, Israel, Yr Unol Daleithiau, Sbaen, India ac ati.

Cefais gyfle i siarad ag un dyn o'r India. Roedd yn byw yng Nghymru ers 30 mlynedd ac yn siarad Cymraeg. Dywedodd e: ``Dw i eisiau diolch achos mae Cymru wedi rhoi lot o bethau i mi. Rhaid i mi siarad iaith Cymru."

Ar ôl tair wythnos roedd yn rhaid i ni ymweld ag ysgolion. Mi es i Lanelli i ysgol Gymraeg y Strade.

Ces i groesaw cynnes iawn gan yr athrawon a gwelais sut mae yr athrawon yn dysgu a sut mae y plant yn cael eu dysgu.

Yr oedd yn brofiad ardderchog a hoffwn fynd yn ôl i Gymru. Mynd yn ôl i hen wlad fy nhadau.

# *Dod i fyw fel Cymro*

***Ariel Hughes ar gwrs WLPAN yng Nghymru***

**Rhoi cyfle i mi deimlo am y tro cyntaf fel Cymro go iawn.**
**Dyna a wnaeth dilyn cwrs WLPAN yn Llambed eleni i mi.**

Yr oedd bod ar y cwrs yn gyfle i ganu, darllen, actio, mynd am dro, ymweld a'r Steddfod Genedlaethol, gwneud ffrindiau, mynd i'r capel a chyfarfod hen ffrindiau - a'r cyfan yn y Gymraeg.

Yr oedd yn gyfle hefyd i wrando ar radio Cymru bob dydd yn ystod ein amser rhydd.

Wnes i fwynhau hefyd bod yn rhan o grwp. Yn ystod y dau fis yr oeddwn yno tyfodd y grwp yn deulu hapus yn gwneud pethau efo'n gilydd a rhannu diddordebau.

Buaswn i yn dweud wrth unrhyw un sydd yn cael cyfle i fynd ar Gwrs WLPAN am wneud hynny. Yr oeddwn yn hoffi ffurf y cwrs a'r cyfle i gael dysgu gydag athrawon efo llawer o brofiad.

Yr oedd yn gyfle hefyd i ddod yn rhan o'r diwylliant Cymraeg go iawn yn astudio hanes, cerddoriaeth, cynghanedd eisteddfodau a phob math o bethau Cymraeg eraill sy'n ein gwneud yn ymwybodol o'n gwreiddiau Cymreig.

### *Llythyr oddi wrth Irma Owen*

Gair bach atoch gan obeithio eich bod i gyd a iechyd fel ninnau yma. Tywydd reit gas ydym wedi ei gael trwy y gwanwyn gyda llawer o wynt ac y mae yn sych iawn. Dydyn ni ddim wedi cael glaw dim ond cawodydd bach. Hefyd, dydyn ni ddim wedi cael eira y gaeaf diwedda a phawb wedi trin y tir ac wedi hau eu gwenith ond nid yw wedi egino yn wastad.

Rydym yn cofio yn aml am y croeso cynnes a gawsom pan oedd Côr Seion yng Nghymru. Y mis diwedda roedd Eisteddfod y Wladfa yn Nhrelew a Chôr Seion yn gystadlu ac yn ennill chwech o wobrau cyntaf. Roeddem yn sobor o falch ar ôl mynd mor bell ar y bws a theithio am dros wyth awr.

Gyda chofion cynnes atoch i gyd. *Irma*

# Cofio seiniau ddoe

**Daeth nodau o'r gorffennol yn fyw i Ariel a Marta Hughes gydag ymweliad merch ifanc o'r Iseldiroedd.**

Pan alwodd Ioana Weber a thy te y Vestry sy'n cael ei redeg gan Marta ac Ariel daeth atgofion am Côr Esquel yn y saithdegau yn fyw iawn..

Tad Ioana oedd yr arweinydd yr adeg honno, José Weber ac yr oedd Ariel yn aelod o'r côr hwnnw pan fu'n cystadlu yn Eisteddfod Llangollen yng Nghymru yn 1979.

Ond yna deuddeng mlynedd yn ôl symudodd José a'r teulu i'r Iseldiroedd oherwydd salwch ei wraig a oedd yn dod oddi yno.

Nid oedd Ariel na Marta wedi gweld Ioana ers hynny nes iddi alw yn y Vestry Tachwedd 12.

"Yr wyt ti wedi canu yng nghôr fy nhad," oedd ei geiriau cyntaf wrtho.

"Ar ol munud o oedi dywedais innau, Ioana Weber wyt ti wrthi," meddai Ariel.

Wrth hel atgofion am y côr a gwrando ar dâp ohono yn canu yr oedd deigryn yn llygaid Ioana.

"Dw i wedi bod eisiau canu yn y côr fy hun, meddai hi wrthyf," dywedodd Ariel.

Mae José Weber yn dal i fyw yn yr Iseldiroedd ac o dras Gymreig o ochr ei Fam.

Pan oedd ef yn arwain y côr daeth yn wythfed allan o 28 yn cystadlu yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a chadwodd dros 17 o gynherddau yng Nghymru yn ystod yr ymweliad.

"Roedd yn hyfryd cyfarfod Ioana eto yn Esquel - dim ond 13 oedd hi pan welais hi ddiwethaf. Yn awr yr oedd yn dychwelyd gyda'r chariad sy'n dod o Seland Newydd ond yn byw yn ir Iseldiroedd.

"Yr oedd yn braf cael y cyfle i anfon cofion at ei thad," ychwanegodd Ariel.

# Ymhlith derwyddon yn Llanelli

***Aira Hughes yn gweld cyhoeddi Eisteddfod 2000***

**Er imi fod yng Nghymru droeon dyma'r tro cyntaf i mi gael y fraint o fod yn bresennol yn seremoni cyhoeddi yr Eisteddfod Genedlathol - a hynny ar gyfer Eisteddfod y Mileniwm!**

Hwn fydd y pumed tro i'r Steddfod gael ei chynnal yn Llanelli a'r tro diwethaf oedd yn 1962.

Roedd yn ddiwrnod pwysig iawn. Cwrdd yn Ysgol Gyfun y dref fore sadwrn, Mehefin 19, ychydig ar ôl canol dydd a chwrdd yno a Golygydd Y Cymro sydd erbyn hyn ar ymweliad chwe mis yma i'n hyfforddi i sgrifennu yn y Gymraeg.

Erbyn tri o'r gloch y pnawn dechreuodd y dyrfa gyrraedd at Gylch yr Orsedd ger y llyn ar Bar Dwr y Sandy. Cannoedd o bobl yno, yn blant, yn ifanc ac yn oedolion. Rhai yn eistedd mewn seddi cyfforddus, eraill ar y llawr a phlant yn rhedeg a chwarae yn yr awyr iach.

Yn sydyn dyna swn y band; pawb yn codi i weld aelodau yr Orsedd yn agoshau yn eu gwisgoedd lliwgar o wyrdd, glas a gwyn at Feini'r Orsedd.

Roedd rhyw awyrgylch urddasol yn y lle wrth i sain y Corn gwlad alw'r bobl o bedwar ban byd.

Emosiynol oedd gweld archdderwydd newydd yn cael ei orseddu, y Parchedig Meirion Evans.

Cafodd y seremoni ei chynnal oddeutu'r meini a ddaeth o chwareli o gylch Llanelli.

Roedd y seremoni yn debyg i'r hyn yr ydym wedi arfer ei weld ym mhob Steddfod gyda Ray Gravell yn tynnu'r cleddyf mawr deirgwaith gyda gofyniad yr Archdderwydd, "A oes heddwch?" a'r dyrfa yn ateb deirgwaith, "Heddwch".

Cyflwynwyd y Corn Hirlas i "yfed o win ein croeso" gan un o famau bro'r Eisteddfod a chyflwynwyd torch o flodau gan un o forynion y fro - "blodau tir a daear Cymru" a phlant ysgolion Llanelli a'r cylch yn dawnsio'r ddawns flodau.

Yn ogystal cafwyd canu penillion i gyfeiliant telyn, canu gwerin ac anerchiad barddol a gweddi'r orsedd.

I orffen ymunodd y gynulleidfa i ganu'r emyn, Cofia'n gwlad Benllywydd Tirion a'r anthem genedlaethol.

Wrth lwc bu'r dydd yn braf ond i orffen roedd un peth ar ôl. Nos Sul, Mehefin 20 yng Nghanolfan Selwyn Samuel bu cyngerdd Côr yr Eisteddfod. Dros bedwar cant o leisiau yn cymryd rhan a rhai o'r unawdwyr yn enillwyr y Rhuban Glas - Shân Cothi, Iona Stephen Williams, Aled Edwards a Rhys Meirion.

Roedd yn wledd i'r glust. Credaf fod pawb wedi mynd adref wedi mwynhau yn fawr a mwy ninnau nad oedd erioed wedi cael gwledd fel hon o'r blaen!

# Wrth fy modd yn crwydro

Rwyf wrth fy modd yn teithio ac y mae llawer o lefydd prydferth iawn i'w cael yn y wlad yma fel y Glaciares. Mae'n rhyfeddol gweld yr holl rew mor agos a chlywed swn y darnau yn cwympo a gweld yr haul yn disgleirio arnynt. A'r rhyfeddod mwyaf yw nad ydynt yn dadmer o un flwyddyn i'r llall.

Yna gweld y gwahanol liwiau ar ddail y coed. Anodd iawn disgrifio y fath harddwch.

Yna, ym Misiones mae'r Cataratas de Iguazu; rhaeadrau rhwng yr Ariannin a Brasil. Mae yma goedwig fawr hefyd achos ei bod hi'n llaith ac yn boeth iawn yna-

Eleni, cefais gyfle i ymweld a Miami gan aros tair noson ym Miami Beach. Roedd y môr yn dawel a'r dwr yn gynnes a'r tywod mor fân a phe byddai yn halen! Roeddwn wrth fy modd yn cerdded ar y traeth.

Ym mhob gwesty yr oedd pwll nofio cynnes gan godi awydd i fwydo ynddo drwy'r dydd.

Aethom ymlaen wedyn i Orlando mewn car hebio'r coed palmwydd oedd mor dlws ar y traethau. Mi arhoson ni ddwy noson ar y ffordd cyn cyrraedd pen ein taith gyda phob un o'r gwestai yn rhai moethus iawn.

Mi wnaethon ni fwynhau peth o'r adloniant hefyd gan ryfeddu o lle y mae dyn yn cael y dychymyg i wneud y fath bethau.

Roedd y llwybrau a'r tai yn hyfryd a'r gerddi yn llawn blodau a phlanhigion gwyrdd.

Y peth oedd yn tynnu ein sylw yn fwy na dim oedd na welson ni blant yn chwarae o'n cwmpas na phobl yn cerdded chwaith. Ond yn Orlando gwelsom ddigon o ferched tew ond hynny heb effeithio dim ar eu hymddygiad gan eu bod yn gwisgo troswsusau neu sgertiau byr a sandalau am eu bod yn mwynhau popeth sydd o'u cwmpas.

Aethom yn ôl i Miami am noson cyn cymryd yr awyren i Bogota ac aros yno am deirwawr. Rhaid oedd newid awyren wedyn a chyrraedd Ezeiza am hanner awr wedi pump a dal awyren arall am hanner awr wedi pump o Aeroparque gan gyrraedd adref am dri o'r gloch wedi

# Mae'n werth mynd am dro

***meddai Gwladys Jones***

**Am rai blynyddoedd ers ymddeol yr ydw i wedi hoffi cerdded a chrwydro.**

Dwi'n mynd efo fy ngwr trwy y lwybrau bach i fyny'r mynyddoedd. Yn ddiweddar mi wnes i ddringo Mynydd y Groes yn agos iawn i dref Esquel.

Ar ôl cerdded am tua dwy awr cyrhaeddon ni y copa am hanner dydd a mwynhau golygfa fendigedig o'r dref a'r lloedd o gwmpas - Llyn La Zeta, Afon Percy a'r holl fynyddoedd gyda'u capiau o eira.

O edrych i'r cyfeiriad arall roedden ni yn gallu gweld dyffryn ardderchog Dyffryn Fach.

Roedd yn ddiwrnod hyfryd dan awyr las ac yn dwym iawn. Dan ni'n meddwl fod cadw'n heini yn bwysig ac y mae'n rhaid cael amser i gerdded ac i edrych ar beth sy'n digwydd

# Chwilio am ffordd i'r ifanc

**Y dyddiau hyn y mae pobl ieuanc wedi colli golwg ar eu llwybr i'r dyfodol.**

Mewn unrhyw ddinas neu dref maent i'w gweld yn hel at ei gilydd ar y strydoedd a lleoedd cyhoeddus eraill am hir amser yn smygu - ac yn yfed weithiau - neu yn sgwrsio neu dreulio eu hamser yn ddiamcan. A'r un peth drannoeth a phob dydd wedi hynny.

Does ganddyn nhw ddim gobaith yn y dyfodol na chynllun bywyd neu ddiddordeb ychwaith. Beth sydd yn digwydd iddyn nhw?

Mae'n amlwg fod y byd y dyddiau hyn a'i holl ddatblygiadau technolegol yn anghofio'r *bod* dynol a'i deimladau a'i anghenion.

Heddiw, mae popeth wedi ei foddi gan fasnach fel pe buasai gwerthu yr unig beth pwysig a gwerthu pethau sydd ond a gwerth materol iddynt - pethau fel moduron, dillad, diod.

Mae yr un pwyslais ar feddu lot o arian.

Mae hysbysebu yn creu angen mewn pobl i gael yr holl bethau materol hyn ond gan fod eu cael yn amhosib i'r rhan fwyaf o bobl y mae rhyw fath o anfodlonrwydd yn cael ei greu ynddynt a hynny yn gwneud iddyn nhw chwilio am ymwared neu gysur mewn cyffuriau.

O dan yr amgylchiadau hyn does gan neb ddiddordeb mewn dim byd o wir werth. Nid ydy ysgolion yn paratoi plant ar gyfer bywyd ac, yn aml, dydy rhieni ddim yn sylweddoli beth mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol.

Un o'r pethau sydd yn cyfrannu at greu y sefyllfa hon yn y byd yn gyffredinol ydy'r teledu a'i raglenni gwag a disylwedd a lot o drais ynddyn nhw. Maen nhw yn gorlethu y gwylwyr heb roi cyfle iddyn nhw feddwl beth sy'n digwydd mewn gwirionedd.

Hefyd, dan ddylanwad y TV dydy'r plant ddim yn ymarfer darllen a hynny yn golygu nad ydyn nhw yn sgrifennu nac yn darllen yn gywir ychwaith.

Y cwestiwn mawr a'r sialens yw; beth allwn ei wneud i wella pethau?

Yn un peth rhaid inni sylweddoli fod i athrawon ran bwysig yn y gwaith.

Ond fydd hi ddim yn hawdd oherwydd i'r sefyllfa bresennol fod yn bodoli ers blynyddoedd a'r rhai sydd yn athrawon heddiw yn ffrwyth y broblem. Oherwydd hyn y mae nifer o athrawon nad ydyn nhw yn ddigon cymwys i arwain unrhyw newid.

Yn y pen draw, gwaith i bawb a phob un ydy hwn a chawn ni ddim dyfodol llwyddiannus onibai ein bod yn deall hynny.

Y mae cyfrifoldeb mawr arnom i gyd . ***Randal Rowlands***

# Nadolig yng Nghapel Seion

***gan Rini Griffiths***

Mae'r Gymraeg yn dal yn fyw ar ddiwedd y mileniwm a chryfder y Celtiaid yn parhau.

Does yna ddim ysgolion Cymraeg wedi bod erioed yma ond roedd y capel yn un lle cymdeithasol lle yr oedd pawb yn deall Cymraeg ac yn mynd yno efo'i gilydd yn ôl arfer yr oes.

Felly y gwnaethom ni ddysgu darllen, ysgrifennu a chanu ond yr oedd meddwl am y nadolig yn fwy o hwyl na'r Ysgol Sul.

Rhai yn gwybod pwy oedd Santa Clôs ond ddim yn agor eu cegau.

Ar ddiwedd y cyngerdd yr oedd Santa yn cyrraedd weithiau gyda'r goeden yn llawn teganau ond dro arall Santa yn dod i mewn gydag andros o sach ar ei gefn yn llawn a rhai o'r plant yn cael eu dychryn i redeg at eu mam.

Ond buan iawn y byddai cylch o blant o amgylch Santa yn disgwyl am rywbeth.

Yn y blynyddoedd diwethaf diolch i'r athrawon o Gymru mae'r iaith wedi cryfhau a'r Nadolig yn cael ei ddathlu eto yng Nghapel seion gyda llawer o'r plant yn mwynhau ac hefyd eu rhieni a nain a thaid a modryd ac ewythr - pawb yn eistedd ac yn gwrando ar y rhai bach gyda gwên ar eu [illegible]

# *Cofio'n hen hen hanes*

***gan***

***Sandra De Pol***

**Ychydig iawn o bobl a ddaeth i gyngres hanes yn Nhrevelin. Parhaodd y drydedd Gyngres Hanes Cymdeithasol a Gwleidyddol ym Mhatagonia rhwng Chile ac Ariannin dros d[...] diwrnod.-**

Roedd llawer o ymchwilwyr yno gyda rhai ohonyn nhwy[...] ffermwyr neu yn bobl wedi ymddeol yn hytrach na haneswy[...] proffesiynol ac yn bresennol oherwydd eu diddordeb y[...] hanes Patagonia.

Mae Jorge Fiori, Cyfarwyddwr Diwylliant Trefelin, wedi bo[...] yn gyfrifol am drefnu'r Gyngres ers dwy flynedd gyd[...] chymorth canolfan ymchwil ym Mhrifysgol G. San Juan Bosc[...]

Dirgelwch y rhyd chwedlonol yn Bariloche oedd testu[...] anerchiad y Dr Rodolfo Casamiquela a soniodd am arferiad y[...] indiaid yn crosi'r Andes.

Dydd Gwener, Tachwedd 12, cyflwynodd Nelcys Jones, prio[...] Fernando Coronato ei gyfieithiad ef o lyfr ThomasJones, Gla[...] Camwy, Hanes Cychwyniad y Wladfa ym Mhatagonia.

Cyfieithodd Fernando y llyfr gyda chymorth Elve[...] MacDonald ac y mae'n son am Gymry cynnar y Wladfa.

Bachgen 16 oed oedd Thomas Jones pan ddaeth o Abertei[...] gydai'i deulu ar y Mimosa.

Mae'r llyfr ar gael i'w fenthyg o Ysgol y Felin, Trevelin.

Yr un diwrnod siaradodd J. Mervyn Evans o Los Cipreses a[...] Refugio Coronel Pringles ger yr Afon Fawr. Dywedodd i'r he[...] refugio gael ei adeiladu gan filwyr yn y pedwardegau. Er na[...] oes dim ar ôl bellach roedd yr ystafelloedd yn gyfforddus gyd[...] lle i gadw anifeiliaid ac ati.

Roedd Mervyn yn chwilio am hen felinau yn yr ardal pa[...] ddarganfyddodd adfeilion y Refugio.

Mae manylion i'w cael o hyd ond nad yw pobl yn cyfarwydd[...]